Difasi, o Uganda

Mae Difasi, sy'n naw mlwydd oed, yn byw mewn pentref bach yn Uganda a bu'n ddall ers iddo gael ei eni. Arferai fynd i'r ysgol gyda'i chwech o frodyr a chwiorydd ond nid oedd yn derbyn unrhyw gymorth arbennig i'w helpu i ddysgu. Bu'n rhaid i Difasi roi'r gorau i fynd am fod ei rieni yn cael trafferth talu ffioedd ysgol eu plant i gyd.

"Rwy'n byw ar ddarn bach o dir gyda fy nheulu. Ry'n ni'n tyfu coffi a thatws. Roedden ni'n arfer tyfu bananas ond daeth clefyd i daro'r cnydau, felly mae ganddon ni lai o arian nawr.

Bob dydd, yn y bore, rwy'n golchi fy wyneb ac yn mynd i balu ar y tir gyda fy nhad. Rwyf hefyd yn helpu i gario dŵr a phlicio'r llysiau i'r teulu. Yn y prynhawn, rwy'n gofalu am y gwartheg ac yn aros i fy ffrindiau ddod adre o'r ysgol. Rwy'n hoffi chwarae pêl-droed gyda nhw a chwarae gemau rhedeg a neidio.

Fred a Soka yw fy ffrindiau gorau; maen nhw bob amser yn gofalu amdanaf i pan fydd y bechgyn eraill yn ymladd. Rwy'n teimlo'n drist ac yn unig gartref hebddyn nhw

Mae fy ngolwg i wastad wedi bod yn wael. Fe aeth fy mam â fi i dref gyfagos un tro i drio cael help meddygol, ond doedd dim meddyg ar gael, felly aethon ni ddim yn ôl.

Byddwn i'n dwlu cael mynd i'r ysgol er mwyn i mi allu bod yn annibynnol ryw ddiwrnod. Rwy'n mynd weithiau, ond fel arfer rwy'n cael fy anfon oddi yno am nad ydw i'n gallu talu'r ffioedd. Rwy'n breuddwydio weithiau y byddaf i, yn y dyfodol, yn reidio beic modur ac yn cael cyfle i ddod yn feddyg."

www.sendmyfriend.org

Llun © Georgina Cranston/Sightsavers